TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# HND Mechanical Engineering



## Yn gryno

Cafodd ein HND Peirianneg Fecanyddol Lefel 5 ei gynllunio mewn ymgynghoriad â'r diwydiant; ei fwriad yw cysylltu â'r diwydiant lleol cymaint â phosibl, yn ei gynnwys yn ogystal ag yn y modd mynychu.

Y nod yw creu peiriannydd gwybodus a chymwys tu hwnt a fydd yn bodloni gofynion diwydiant. Mae hon yn rhaglen alwedigaethol arbenigol sydd â phwyslais cryf ar waith.

Mae'r cwrs yn cynnig sylfaen drylwyr yn y prif gysyniadau a sgiliau ymarferol sydd eu hangen yn y sector. Mae'r cwrs, sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol gan gyflogwyr, hefyd yn caniatáu astudio pellach ar lefel gradd a thu hwnt.

## Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...rydych eisiau dod yn Beiriannydd Mecanyddol cymwys neu gymryd eich camau nesaf yn y diwydiant hwn

...Rydych eisiau datblygu eich sgiliau ac arbenigedd mewn Peirianneg Fecanyddol

...Rydych yn gallu datrys problemau'n dda

**Cynnwys y cwrs**

Ceir cymysgedd o sesiynau damcaniaethol ac ymarferol ar y cwrs hwn. Byddwch yn astudio unedau, gan gynnwys:

Blwyddyn 1

Gwyddoniaeth Fecanyddol 2
Prosesau Cynhyrchu
Hanfodion Rheoli a Pheirianneg Busnes

Blwyddyn 2

Cynllunio Peirianneg Gynaliadwy
Systemau Rheoli ac Offeryniaeth
Prosiect

**Gofynion Mynediad**

Fel arfer, bydd arnoch angen o leiaf un o'r canlynol:

BTEC Lefel 3 perthnasol o Deilyngdod/Teilyngdod
DD ar Safon Uwch
Graddau DE ar Safon Uwch, a Bagloriaeth Cymru gradd C
Mynediad i Addysg Uwch lle rydych wedi ennill Diploma Llwyddo gyda 45 Llwyddo

Yn ogystal â: Llwyddo mewn tri phwnc TGAU ar radd C neu uwch, gan gynnwys Mathemateg ac Iaith Saesneg (neu gyfwerth).

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Byddwch hefyd yn datblygu sgiliau cyflogadwyedd hanfodol megis hunanreolaeth, gweithio mewn tîm, ymwybyddiaeth o gwsmeriaid busnes, datrys problemau, cyfathrebu, rhifedd, ac agwedd gadarnhaol at waith.

Byddwch angen eich offer ysgrifennu eich hunan, h.y. ffolderi, rhanwyr pwnc, pinnau

ysgrifennu, pensiliau, pren mesur a chyfrifiannell wyddonol.